

**Rhif: WG36669**



Llywodraeth Cymru  
Dogfen ymgynghori

## Gwerthu Cŵn a Chathod Bach drwy Drydydd Parti

Dyddiad cyhoeddi: 19 Chwefror 2019  
Gweithredu yn ofynnol: Ymatebion erbyn 17 Mai 2019

## Trosolwg

Ceir pryderon y gellid bod cysylltiad rhwng gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti ac amodau lles gwael i'r anifeiliaid o'i gymharu â phan mae pobl yn prynu'n uniongyrchol gan y bridwr. Er enghraifft, cyflwyno sawl amgylchedd newydd ac anghyfarwydd a'r tebygolrwydd y bydd yn rhaid i'r cŵn neu'r cathod gael eu symud o gwmpas mwy. Mae'n bosibl i hyn oll gynyddu'r risg o afiechydon a gall y cŵn a'r cathod bach golli'r cyfle i gymdeithasu a chynefino.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau ystyried a fyddai newid y polisi a/neu'r gyfraith yng Nghymru yn gwarchod lles cŵn a chathod bach yn well ai peidio pan gânt eu gwerthu.

## Sut i ymateb

Ymatebwch drwy ddefnyddio'r holiadur yng nghefn y ddogfen hon os gwelwch yn dda. Cewch gyflwyno ymatebion yn electronig neu drwy'r post. Neu, mae ffurflen ar-lein ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Fframwaith ac Iechyd Anifeiliaid  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [companionanimalwelfare@gov.wales](mailto:companionanimalwelfare@gov.wales)

## Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw wybodaeth a roddwch inni fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu eich data personol a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am sut maent yn ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion yn yr ymgynghoriad hwn neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau i'r dyfodol yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn llawn. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn fanylach yna gallai gomisiynu trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (ee. sefydliad ymchwilio neu gwmni ymgynghori). Ni fydd y cyfryw waith ond yn cael ei wneud dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y sawl neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu'ch cyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata o'ch eiddo a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am hyd at dair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir andanoch a chael mynediad ato
- cael cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- cael dweud (o dan rai amgylchiadau) nad ydych am inni ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch data personol
- cael eich data wedi'i ddileu (o dan rai amgylchiadau)
- cael eich data wedi'i symud (o dan rai amgylchiadau)
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am ymarfer eich hawliau dan GDPR, gweler y manylion cysylltu isod:  
Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost:  
[Data.ProtectionOfficer@gov.wales](mailto:Data.ProtectionOfficer@gov.wales)

Manylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123  
1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## **Beth yw'r prif ystyriaethau?**

Mae safonau lles anifeiliaid uchel yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid<sup>1</sup> yn datgan ein cynllun i wneud gwelliannau parhaus a pharhaol yn y safonau iechyd a lles anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a gedwir.

Ar hyn o bryd, gallwch brynu cŵn a chathod bach naill ai'n uniongyrchol gan fridiwr (trwyddedig neu anhrwyddedig yn ddibynnol ar faint o eist bridio a gedwir), drwy werthwr trydydd parti, neu o ganolfan achub/ailgartrefu. Nid oes cofnodion cenedlaethol i'w cael o nifer y cŵn a'r cathod bach a werthir drwy drydydd parti.

Gwerthwyr trydydd parti masnachol yw'r rheini sy'n werthwyr anifeiliaid anwes trwyddedig; yng Nghymru byddant yn dal trwydded dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

Ceir pryderon y gellid bod cysylltiad rhwng gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti ac amodau lles gwael i'r anifeiliaid dan sylw o'i gymharu â phan mae pobl yn prynu'n uniongyrchol gan y bridiwr. Er enghraifft, cyflwyno nifer o amgylcheddau newydd ac anghyfarwydd, a'r tebygolrwydd y bydd yn rhaid i'r cŵn neu'r cathod bach gael eu symud o gwmpas mwy gan gynyddu'r risg o afiechydon a gall y cŵn a'r cathod bach gollir cyfle i gymdeithasu a chynefino.

Ar 19 Mehefin 2018 cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, Ddatganiad Llafar yn cyhoeddi ei hymrwymiad i archwilio'r dewisiadau i wahardd gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti yng Nghymru. Ar 5 Tachwedd 2018 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai ymgynghoriad yn cael ei lansio i gasglu gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi a gweld lle byddai ymyrraeth y llywodraeth yn cael y mwyaf o effaith.

## **Ble rydyn ni nawr?**

Fe wnaeth cyflwyno Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 arwain y ffordd yn y DU i roi sylw i'r pryderon am les mewn sefydliadau bridio cŵn trwyddedig. Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer trwyddedu sefydliadau bridio sydd â thair neu ragor o eist bridio. Fodd bynnag, nid ydym eisiau sefyll yn ein hunfan a byddwn yn mynd ati i adolygu ein Rheoliadau i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel rydym yn eu disgwyl. Yn benodol, ceir pryderon o hyd am y safonau lles mewn rhai sefydliadau bridio trwyddedig a hefyd ynglŷn â gorfodi'r Rheoliadau. Bydd y canfyddiadau o'r ymgynghoriad hwn yn helpu i siapia newidiadau i'r dyfodol ond ni allwn ddweud ar hyn o bryd beth fydd y newidiadau hynny.

Ar hyn o bryd, nid oes gofyn i bobl sy'n bridio cathod gael eu trwyddedu.

Ceir 219 o fridwyr cŵn trwyddedig yng Nghymru.

Ceir llai nag 20 o siopau anifeiliaid anwes trwyddedig sy'n gwerthu cŵn a chathod bach yng Nghymru.

---

<sup>1</sup> <https://beta.llyw.cymru/strategaeth-anifeiliaid-a-ffermir>

## **Y sefyllfa bresennol mewn rhannau eraill o'r DU**

### **Lloegr**

Ym mis Hydref 2018 cyflwynodd Defra y Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) 2018. Cyflwynodd y Rheoliadau weithdrefnau trwyddedu newydd ar gyfer gwerthu anifeiliaid anwes, lletya cathod a chŵn, hurio ceffylau, bridio cŵn a chadw neu hyfforddi anifeiliaid i'w harddangos. Ym mis Chwefror 2018 lansiwyd galwad am dystiolaeth cyn cynnal ymgynghoriad pedair wythnos ym mis Awst 2018 ar gynlluniau i gyflwyno gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti yn Lloegr. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn hefyd am drwyddedu canolfannau achub ac ailgartrefu rhag bod gwerthwyr trydydd parti yn hawlio eu bod yn eithriedig dan unrhyw waharddiad posibl. Ar 23 Rhagfyr cadarnhaodd Defra y bydd yn gwahardd yr arfer o werthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti yn Lloegr.

### **Yr Alban**

Ym mis Medi 2018 lansiodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad yn ceisio barn am gynigion i gyflwyno rheoliadau newydd ar gyfer trwyddedu gweithgareddau bridio cŵn, cathod a chwingod yn yr Alban.

Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried sut gellid pennu trothwyon ar gyfer trwyddedu yn ddibynnol ar faint y busnes a sut gallai hyn weithio i sefydliadau â mwy nag un safle.

### **Gogledd Iwerddon**

Yn ystod 2018 bu DAERA yn adolygu'r mater o sefydliadau anifeiliaid yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys sefydliadau sy'n gwerthu anifeiliaid anwes. Yn 2019, mae DAERA yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid i gael eu barn am y system drwyddedu yng Ngogledd Iwerddon i'r dyfodol.

### **Tystiolaeth ar gyfer newid**

Mae sawl ffordd y gall rhywun brynu ci neu gath fach o ffynhonnell gyfreithlon;

- 1) Gan fridiwr cŵn trwyddedig (rhywun sydd ag o leiaf dair gast fridio)
- 2) Gan fridiwr heb drwydded (rhywun sydd â llai na thair gast fridio neu sy'n bridio cathod)
- 3) Gan werthwr trydydd parti (rhywun nad yw wedi bridio'r ci neu'r gath fach ei hun)
- 4) Gan ganolfan achub/ailgartrefu.

Yn anffodus i'r anifail a'r prynwr/darpar berchennog, nid yw pob gwerthwr yn cydymffurfio ag anghenion lles yr anifeiliaid hyn ac, yn anffodus, ceir elfen droseddol

weithiau pan fo'r anifeiliaid yn cael eu defnyddio fel nwyddau er mwyn gwneud elw ariannol.

Pan gyfeiriwn at werthwyr trydydd parti masnachol yn y ddogfen hon y rheini sydd wedi'u trwyddedu dan Ddeddf Anifeiliaid 1951 yr ydyn ni'n ei olygu.

Er bod lles anifeiliaid yn fater datganoledig, mae'r diwydiannau bridio a gwerthu anifeiliaid anwes yn y Deyrnas Unedig yn rychwantu'r pedair gweinyddiaeth, a hyd yn oed ymhellach ambell dro. Ni fydd cŵn neu gathod bach a enir yng Nghymru o anghenraid yn cael eu gwerthu i berchennog newydd yng Nghymru. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl am y gadwyn gyflenwi i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y polisi neu'r ddeddfwriaeth yn cyflawni amcan y polisi, sef codi'r safonau lles yng Nghymru.

Yng Nghymru byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf hwn i helpu i gynllunio'r ffordd ymlaen. Rydyn ni felly'n gofyn ichi am eich barn a hefyd yn gofyn ichi roi inni unrhyw dystiolaeth sydd gennych i'n helpu ni i ddeall y sefyllfa'n well.

Y dynfa emosiynol i brynu ci neu gath fach, weithiau, yw'r prif reswm pam bod pobl yn ildio i brynu anifail gan bobl y gwyddant na ddylent brynu ganddynt. Mae'n ymddangos mai'r prif reswm am wneud hyn yw lles yr anifail ac mae'r rheini sy'n gwerthu'r anifail yn chwarae ar y dynfa emosiynol hon.

Os yw Llywodraeth Cymru am wneud gwahaniaeth yng Nghymru rhaid inni sicrhau na cheir dim manau gwan i bobl ddiegwyddor fanteisio arnynt, felly mae eich sylwadau'n werthfawr dros ben i siapio'r camau nesaf.

Croesawn farn plant a phobl ifanc, eu rhieni a'u haddysgwyr ar sut gallwn wella'r prosesau a'r amodau gwerthu i sicrhau lles gorau'r anifail a bod gan y prynwr anifail newydd iach yn ei gartref neu ei weithle.